# Llais yr Andes

Papur Bro Hydref (Trevelin ac Esquel) Mai 2015

Pris: $15


## Diolchgarwch a'r Pasg yng Nghapel Bethel a Chapel Seion

Roedd hi'n ddiwrnod prysur yn yr Andes ddydd Sul y 19eg oherwydd fe gynhaliwyd dwy oedfa i ddiolch am y Cynhaeaf ac am y Pasg gydag Isaías Grandis yn pregethu'n y Gymraeg ac yn Sbaeneg. Daeth cynulleidfa dda i gapel Bethel y Cwm yn y bore gyda nifer o bobl leol yn ogystal â chyfeillion o'r Unol Daleithiau a oedd yn ymweld â'u teulu yn Nhrevelin yn bresennol. Am 5 y prynhawn cafwyd gwasanaeth yng nghapel Seion Esquel a chyfle i rannu bara a gwin er cof am yr Arglwydd Iesu. Dyna'r tro cyntaf i'r aelodau gael cymundeb ers cyfnod Hazel Charles Evans yn yr Andes. Bydd cymundeb yn digwydd yn rheolaidd o hyn ymlaen. Yn ôl yr arfer, aeth pawb i'r Ganolfan ar ôl y gwasanaeth i fwynhau sgwrs a the gyda digon o frechdanau, bara menyn a chacennau blasus. Diolch i bawb wnaeth gymryd rhan yn y gwasanaethau ac am eu cefnogaeth frwd. Bydd y gwasanaeth nesaf yng nghapel Seion ar y 17eg o Fai.

*Eluned Owena*










Yn y rhifyn hwn:

Gwenan Gibbard - tudalen 7

O'r ysgolion - tudalen 9

Taith yr hetiau - 13


Eluned Jones

Eich papur bro chi ydy hwn, felly cofiwch anfon eich cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf at Eluned - elunedjones67@hotmail.co.uk.  Diolch yn fawr.

## Gair gan y golygydd


Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno'r rhifyn yma.  Diolch i Eluned Owena Grandis am ei gwasanaeth dros y blynyddoedd ac am ei chymorth parod bob amser.  *Eluned Jones*

# Cerdded o gwmpas y Canmlwyddiant a Hanner

## Gorsedd y Cwmwl



I bawb sydd wedi bod i Drevelin mae mynydd Gorsedd y Cwmwl yn tynnu eu sylw a dw i´n ddigon ffodus i´w allu cyfarch bob dydd wrth agor y llenni: mynydd gyda siâp..wel, gorsedd a dweud y gwir a`i ben yn aml yn y cymylau.
Penderfynodd Marcelo Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y r Andes byddai´n syniad dringo´r mynydd er mwyn ceisio adfer yr enw gwreiddiol ac i ddathlu´r flwyddyn gyda thaith arbennig. Roeddwn i wedi cael gwahoddiad i gynrychioli Cymru ac roedd 18 yn y grŵp gan gynnwys dringwyr, athletwyr a phobl sydd yn caru´r mynyddoedd.
Dechreuodd y daith ym Mharc Cenedlaethol Los Alerces ond wrth yr argae ac er bod y rhan fwyaf ohonom wedi bod yn paratoi roedd y dringo yn ddigon anodd:  llethrau serth iawn, llwybrau caëedig (oherwydd yr holl blanhigion a choed), *mochilas* trwm, planhigion pigog ym mhob man ac wedyn wrth i ni nesáu at y cwm lle byddwn yn gwersylla, cerrig rhydd ym mhob man!  Heb oedi mwy na phymtheg munud yn ystod y dydd buom yn cerdded am bron i ddeg awr ac er i ni fwynhau´r her a´r golygfeydd o´r argae yn agor i ni wrth i ni fynd yn uwch ac yn uwch , roedd yn her i´r corff yn bendant!
Ar ôl dod o hyd i blatfform o garreg wastad ar lawr y cwm anferth i osod y pebyll,  bwytom swper wrth i´r haul fachlud a cheisio cysgu wrth i´r gwynt geisio chwipio´r pebyll i´r awyr!  Y bore wedyn roedd hi´n ceisio bwrw glaw felly roedd rhaid aros i´r cymylau enwog godi i allu dechrau dringo i fyny i *col* uwch i gyrraedd troed yr 'orsedd'.  Oherwydd y tywydd a´r amser dim ond y dringwyr annibynnol oedd yn gallu dringo´r darn olaf felly roedd rhaid bodloni ar dynnu lluniau o lyn Amutui Quimei o danom a´r cerrig pigog uwch ein pennau.




Cyrhaeddodd deg i´r copa gan gynnwys Alun Ial Jones a'i fab Tegid, 10 oed, yr un ieuengaf i'w wneud,  ac wrth gwrs ein ffrind Marcelo Roberts a gadawyd pod amser gyda phethau yn coffau´r canmlwyddiant a hanner gan gynnwys baner Cymru-Ariannin wedi'i harwyddo gan y grŵp i gyd. →

Roedd dod i lawr os rhywbeth yn waeth na mynd i fyny, gyda deuddydd o ymarfer corff yn ein pengliniau ac mewn rhai mannau roedd rhywun yn synnu sut oedden ni wedi pasio ar y ffordd i fyny! Profiad bythgofiadwy, her personol, cyfle i rannu a gwneud ffrindiau newydd a phob tro dw i´n edrych allan o fy ffenest rwan gwelaf y mynydd hyfryd hwn mewn golau gwahanol.

**Camwy ar Droed**

Penderfynwyd dilyn ôl-traed y setlwyr cyntaf wrth iddynt gerdded o Borth Madryn i Rawson er mwyn dod o hyd i ddŵr yfed a ffurfiwyd y grŵp Camwy ar Droed. Y bwriad oedd cerdded tua 25km y dydd o gwmpas 70 km mewn tridiau, cyn gwersylla ar y Paith ond roedd gan y tywydd gynllun arall! Buodd hi´n bwrw glaw drwy´r dydd a´r nos nos Iau Ebrill 17 ac ar ôl ychydig iawn o law ers misoedd ac wedyn llawer yn cyrraedd ar unwaith, byddai wedi bod yn amhosib i´r cerbydau oedd yn cario ein pebyll a swper gyrraedd y mannau gwersylla heb suddo i mewn i´r mwd felly penderfynwyd cerdded at ryw fan arbennig cyn mynd adref i gysgu a dychwelyd i'r fan yna y diwrnod wedyn i ddechrau cerdded eto i gwblhau´r daith o dan yr amgylchiadau.

Roedd y criw o 22 yn frwdfrydig ac roedd yn ddiddorol sgwrsio wrth gerdded a dod i adnabod pobl newydd yn ogystal a llefydd newydd. Roedd rhywun yn dechrau meddwl am y Cymry cyntaf yn eu dillad trwm, ssgertiau hir, siacedi gwlan, esgidiau trwm, yn cerdded trwy´r paith yn chwilio am ddŵr, heb fod wedi bwyta yn iach ers talwm, os erioed, a´r tirlun mor ddieithr iddynt, cymaint o awyr, dim cysgod a'r gwynt a'r oerfel...Roedd yn gwneud i chi ystyried profiad y Cymry cyntaf mewn ffordd bersonol ac yn sicr roedd rhywun yn teimlo´n nes atynt wrth gerdded yn ein dillad technegol gyda bwyd blasus yn ein haros ar y diwedd a meddwl am sut fyddai wedi bod cant a hanner o flynyddoedd yn ôl.

Gobeithio byddaf yn cael y cyfle rhyw dro yn y dyfodol i wersylla yn y llefydd unig er mwyn profi noson ar y paith ond am brofiad roedd y daith yn fan cychwyn perffaith i brofi hanes y Cymry a cyntaf mewn ffordd newydd. Diolch i bawb a drefnodd y daith a gobeithio byddwn yn cerdded gyda´n gilydd eto yn fuan.

*Clare Vaughan*

## Jam Llaeth



Bob Nos Lun am 22.00 ar Radio Pocas Nueces (106.5fm)

Rhaglen ddwyieithog ydi Jam Llaeth gyda newyddion, cyfweliadau, straeon, cyfle i ddysgu chydig o Gymraeg a Sbaeneg, a cherddoriaeth Cymraeg. Ac wrth gwrs llawer o gerddoriaeth yn y Gymraeg. Bydd rhai o'r ardde-gau sydd yn astudio Cymraeg yn cyfrannu pob wythnos hefyd.

Rydym yn gyffrous iawn bod y rhaglen wedi ailddechrau. Dechreuodd Jam Llaeth yn y flwyddyn 1999 gyda Sioned Hughes, sef yr athrawes oedd yma o Gymru. A darlledwyd y rhaglen olaf yn 2004.

Mae'n bosibl darganfod mwy ar ein tudalen ar facebook, www.facebook.com/jamllaeth ac mae'r rhaglen yn cael ei uwchlwytho i soundcloud bob wythnos er mwyn i bawb allu gwrando arno.

Tan nos Lun nesa',

Sara Borda Green ac Iwan Madog

# Nadolig yng Nghymru



Am y tro cyntaf erioed, wnes i dreulio Nadolig 2014 efo Eluned fy ngwraig a'n teulu yng Nghymru. Yma yn Nhrevelin, bydda i fel arfer yn cael asado gyda phob math o salad, ond ces i dwrci a stwffin ar y 25ain o Ragfyr y llynedd. Roedd yn dwrci organig blasus iawn wedi'i weini gyda stwffin wrth gwrs, digon o grefi, tatws, tatws rhost, tua phedwar gwahanol math o lysiau a saws bara. I goroni'r cyfan, pwdin Nadolig a saws brandi a diod o flodau'r ysgawen i olchi'r cyfan i lawr. Roedd yn rhaid i mi wrthod y cynnig o ddarn o gacen Nadolig ar ôl y wledd, roedd hyn yn ormod-hyd yn oed i fi!



Cefais amser penigamp yng Nghymru er gwaetha'r ffaith mod i wedi colli'r rhan fwyaf o'r haf a wedi mynd yn syth i'r gaeaf. Rhaid i mi ddweud fod Cymru yr un mor brydferth yn y gaeaf ag ydyw yn yr haf, ac er yr oerfel, roedd digon o lefydd i fynd iddyn nhw a digon o bobl i ymweld â nhw. Hyfryd iawn oedd treulio amser efo Mansel ac Eirlys, fy rhieni yng nghyfraith, Elena, fy chwaer yng nghyfraith, Alun, fy mrawd yng nghyfraith a'i wraig Joanna a'u merch fach Gwenllian yn ogystal â dwy nain annwyl Eluned (neu mam-gu fel mae hi'n eu galw!) Roedd cyfle i ymweld â Gwilym Roberts, Robert Owen Jones a Nesta, Hazel a Parry, Eirian Wyn Lewis, James, Eleri a Nel, Dafydd a Meri, ffrindiau a theulu Eluned yn ogystal â mynd i fy ngêm rygbi cyntaf erioed. Dw i'n cefnogi'r Scarlets rwan!



Roedd hi'n neis iawn gwahodd Eluned (Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn yr Andes 2015) ac Euros Jones i Landdarog ar ôl mwynhau eu cwmni yma ym Mhatagonia drwy gydol y llynedd, a threulio amser efo nhw yng Nghymru, yn enwedig gan eu bod yn byw yn agos i ffarm teulu Eluned!

Nadolig yn haul Patagonia fydd eleni dw i'n credu, ond dw i'n siŵr y bydd digon o gyfle i fwynhau Nadolig gaeafol yng Nghymru eto yn y dyfodol!!

*Isaías Grandis*

Digwyddiadur:

Bydd y gwasanaeth nesaf yng nghapel Seion ar y 17eg o Fai

Cadwch lygaid allan ar dudalen Menter Patagonia am ddigwyddiadau'r wythnosau nesaf

Menter PATAGONIA

# Cornel Coginio

## *Tartennau bach ar gyfer cwrs cyntaf*



*1. Gyda'r toes a ddefnyddir i wneud tartennau, gwnewch foldiau bach unigol gan sicrhau bod y toes yn denau a rhowch nhw yn y popty am 15 i 20 munud. Tynnwch nhw allan a chedwch nhw mewn tun nes y byddwch yn eu llenwi efo :*

*2. i) llond cwpan o reis a thun o diwna a chonfennau o'ch dewis*

*ii) ham wedi'i dorri a'i gymysgu gyda chaws roquefort a hanner tun o bâté neu picadillo – byddwch yn ofalus wrth ychwanegu halen!*

*iii) moron wedi'u gratio'n fan, hanner llond cwpan o resins ac hanner llond cwpan o gnau wedu'u malu'n fân ac un afal wedi gratio. Gallwch ychwanegu powdwr cyrri,halen,pubur a lemwn.*

*3. Ychwanegwch gaws meddal ( queso blanco untable) a 3 neu 4 llond llwy fwrdd o hufen Salad ( mayonesa) at yr uchod i gyd.*

*4. Paratowch y tartennau bach gyda'r llenwadau hyn.*

*5. Rhowch hufen salad arnyn nhw ac addurnwch nhw gyda phubur coch wedi berwi, wy wedi berwi neu olifs.*

*O.N. Awgrym - gallwch ddefnyddio toes empanadas i wneud y tartennau bach.*

*Lidia Baroso de Williams*

# Geirfa

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gorsedd | Trono | Telyn | Arpa |
| Pabell (pebyll) | Carpa(s) | Calon | Corazón |
| Darganfod | Descubrir | Gweithgareddau | Actividades |
| Prifysgol | Universidad | Brwdfrydig | Entusiasta |
| Bendith | Bendición | Pwyllgor | Comisión |

# 'Ble mae Rhian rwan?'



Mae'n anodd credu bod cymaint o amser wedi mynd ers i fi dreulio blwyddyn fythgofiadwy fel athrawes Gymraeg yn yr Andes. Pymtheng mlynedd! I ble aeth yr amser, d'wedwch?

Mae'r atgofion yn para mor felys â jam llaeth o hyd. Rwy'n cofio'n aml ac yn hiraethus am eich croeso twymgalon, eich cyfeillgarwch didwyll a'ch caredigrwydd hynod. A dweud y gwir, roedd yn anodd setlo nôl gartref yn yr 'Hen Wlad' ar ôl eich gadael. Buodd yn dipyn o sioc dychwelyd i Gymru…i hen le di-faté, di-asado a di-facturas.

Trueni nad oedd Facebook na Twitter yn bodoli bryd hynny - byddai wedi bod yn ddefnyddiol gallu cysylltu mewn ffyrdd mor hwylus er mwyn lleddfu tipyn ar yr hiraeth amdanoch.

Erbyn hyn, dw i'n byw yn Ne Cymru, ger Llanelli. Dw i wedi gwneud fy nyth mewn pentref o'r enw Llangennech, ble mae tua 5,000 o bobl yn byw (mae tua 2,000 o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn rhugl felly mae tipyn o'r iaith i'w chlywed o'n cwmpas yma).

Ers tair blynedd, rwy'n gweithio yn Abertawe. Bues i'n dysgu dosbarthiadau gloywi iaith i oedolion yn yr ardal am gyfnod, ond ers mis Medi eleni rwy'n cael fy nghyflogi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddysgu yn Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Myfyrwyr ail iaith rwy'n eu dysgu yno'n bennaf ac mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n dod o gymoedd De Cymru. Ond, credwch neu beidio, mae gen i un dosbarth o ddechreuwyr sy'n dod o wahanol rannau o'r byd: Norwy, Yr Almaen, Ffrainc, Kosovo, Gogledd America a Lloegr. Maen nhw'n dysgu'n gyflym iawn, yn gynt na sbwng yn amsugno dŵr! Mae'n bosib gweld rhai o'r myfyrwyr hyn yn ymarfer eu Cymraeg ar You Tube, dim ond ar ôl cael un wers Gymraeg (http://www.youtube.com/watch?v=csAtNpNPXhE). Ydych chi'n adnabod unrhyw un o Esquel neu Drevelin a fyddai'n awyddus i ddod i astudio gyda ni yn Abertawe, tybed?! Byddai croeso mawr iddyn nhw.

Newid mawr arall yn fy mywyd i ers gadael yr Andes yw bod gen i gyfenw gwahanol nawr. Nid Jones ydw i bellach, ond Abbott. Oes, mae gen i ŵr i gadw tŷ a choginio i fi erbyn hyn (!). O Lundain mae e'n dod yn wreiddiol. Dw i'n trio fy ngorau i ddysgu Cymraeg iddo fe, ond dw i ddim yn cael unrhyw lwyddiant a bod yn onest. Bues i'n ystyried ei bostio fe draw atoch chi am gyfnod er mwyn iddo ddysgu, ond mae'n anodd cael amlen ddigon mawr.

Byddai'n braf dros ben pe bai'r ddau ohonon ni'n gallu dod i'ch gweld un dydd. Pan ddaw'r cyfle, byddwn ni'n siŵr o ddod draw. Byddai'n hyfryd eich gweld chi bob un.

Dymuniadau gorau i chi gyda'ch dathliadau arbennig yn 2015. A bendith Duw arnoch.
Tan y tro nesaf, ffrindiau.

Rhian (Jones) X



# Atgofion melys

Petaech chi'n cael golwg ar y pentwr llyfrau sydd gen i wrth fy ngwely ar y funud mi fyddai gennych syniad go lew o'r hyn sydd wedi bod yn llenwi fy meddwl dros yr wythnosau dwytha'. O farddoniaeth R Bryn Williams ac ysgrifau Eluned Morgan i gyfrolau Cathrin Williams a chasgliad o farddoniaeth fuddugol Eisteddfod y Wladfa, does dim digon o hynt, helynt a hanes Patagonia a'i ffordd o fyw i gael i mi ar y funud! Mae'r cyfan oll wedi ei danio gan fy nhaith fythgofiadwy draw i'r Wladfa fis dwytha' – deg diwrnod llawn i'r ymylon o brofiadau cyfoethog.

Oeddwn, mi roeddwn i'n gwybod rhyw gymaint am hanes yr ymfudo i'r Wladfa ac wedi clywed hanesion a phrofiadau difyr sawl cyfaill a aeth draw yno ar ymweliad ond doedd dim allai fod wedi fy mharatoi at y profiad gwefreiddiol o fod yno fy hunan, ar dir De America, yn bellach i ffwrdd o adre nag y bues i erioed ac eto'n teimlo'n saff ac yn hollol gartrefol ymysg ffrindiau ac eneidiau hoff cytun.

Gyda fy sbectol haul a fy sandalau yn saff yn y cês, cychwynais yn eiddgar am Fanceinion a thelyn go arbennig efo fi, un o wneuthuriad Telynau Teifi, a fyddai, wrth i mi droi tuag adre, yn cael aros yn ei chartref newydd yn yr Andes. Braint oedd cael danfon y delyn i ben ei thaith a chael bod yn rhan o'r ymgyrch arbennig yma a arweinwyd gan Elinor Bennett. Ond cyn ffarwelio â'r delyn roedd cryn dipyn o berfformio a chyngherddau i'w gwneud gan ddechrau yn Nhrelew, yn theatr braf y Teatro Verdi. Profiad arbennig fu'r noson honno i mi yng nghwmni pobl y Dyffryn, noson yn llawn o sgyrsiau diddorol a braf oedd cael cyd-weithio efo rhai o'r cerddorion lleol sef Caren Jones, Sonia Baliente, Otro Sielo a grŵp Mariela Ledesma. Rhaid i mi ddiolch i Catrin Morris am yr holl drefnu trylwyr ac am ei chroeso cynnes. Profiad arbennig iawn oedd cael bod yn rhan o un o ddathliadau swyddogol Trelew i nodi'r can mlynedd a hanner ers sefydlu'r Wladfa.

Yn ystod yr ychydig ddyddiau a dreuliais yn Nhrelew llwyddais i grwydro tipyn ar hyd strydoedd y dref yn yr awel gynnes, gref, gan ryfeddu at y gof-golofn drawiadol i Lewis Jones a chefais gyfle i bicio i'r Ysgol Gymraeg gartrefol, lle profais fy 'mate' cyntaf erioed! A ninnau'n nabod ein gilydd ers blynyddoedd, braf iawn oedd cael dal i fyny yn y Gaiman efo Esyllt a'r teulu a diolch arbennig i Mabon ac Idris am roi i mi fy mlas cyntaf ar jam llaeth! Hefyd, roedd Sosial yn y Gaiman yr wythnos honno a mwynheais y cwmni difyr a'r canu, a'r bwyd da wrth gwrs. Yna cefais daith hyfryd a hynod ddiddorol i Borth Madryn efo Cathrin Williams a chael gweld â'm llygaid fy hun yr union fan lle glaniodd y Cymry yn 1865. Profais mewn amser byr iawn agosatrwydd cymdeithas Trelew a'r Gaiman a'r croeso tu hwnt o gynnes oedd i'w gael gan bawb ym mhobman.



Buan y daeth yn amser gadael am yr Andes. Roeddwn wedi ceisio dychmygu sawl gwaith sut le oedd 'y paith' y clywais cymaint amdano, a chefais olwg ddramatig arno wrth deithio dros nos ar y bws. A hithau'n noson glir a llonydd, goleuwyd y paith gan leuad lachar a sêr di-ri a syllais ar y tirwedd hynod a hudolus hwn am hydoedd, yn union fel pe bawn yn edrych ar ffilm. Roedd hwn yn antur go iawn i mi! Fe'm trawyd wrth gyrraedd Esquel gan banorama godidog mynyddoedd mawr yr Andes ac wrth deithio tua Trevelin



fe'm swynwyd gan enwau Cymraeg y ffermydd ar fin y ffordd. Rydw i'n ddiolchgar iawn i Margarita Green am fy ngwahodd i gymryd rhan yng ngŵyl Patagonia Celtica yn Nhrevelin a gŵyl wych oedd hi hefyd. Welais i erioed safle harddach ar gyfer cynnal gŵyl o gerddoriaeth a dawnsio. Roedd rhyw hud yn perthyn i'r llecyn gwyrdd yma ger yr Afon Fawr ac awyrgylch arbennig trwy gydol y penwythnos. Ar y bore cyntaf yn yr Andes cefais gwmni Elinor Bennett a Rhisiart Arwel a llu o berfformwyr eraill ac ymwelwyr, amryw ohonynt o Gymru, ar daith gerddorol hwyliog ar y trên i ganol unigedd rhyfeddol y mynyddoedd. Pedwar diwrnod cymdeithasol iawn ges i yn Nhrevelin ac mae gen i atgofion braf am ddyddiau hir o heulwen di-baid, am sgwrsio wrth y llyn i gyfeiliant cerddoriaeth werin y gwledydd Celtaidd a thorri syched efo cwrw melys Trevelin, canu deuawd annisgwyl efo Alejandro Jones a gwneud rhagor eto o ffrindiau da o blith trigolion Trevelin ac Esquel. Bu cyfle i gynnal cyngerdd yn Esquel a gweithdai telyn hefyd yn Nhrevelin cyn ymadael. Diolch o galon i Alwen Green ac Aldo am y llety a'r croeso twymgalon a gefais ganddynt tra yn yr Andes. Buom yn sgwrsio cryn dipyn dros sawl paned o de a chefais grwydro yma ac acw yn eu cwmni a gweld rhai o ryfeddodau'r ardal.



Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig – roedd rhain yn gwbl greiddiol wrth gwrs ym mywydau'r ymfudwyr cynnar i'r Wladfa a gwelaf eu bod nhw'n dal yn hynod o bwysig ym mywydau pobl y Wladfa heddiw. Mi deimlais y brwdfrydedd yno ymysg yr hen a'r ifanc a'r awydd i gynnal yr iaith a'n traddodiadau. Can mlynedd a hanner wedi mordaith arloesol y Mimosa mae'n braf meddwl fod cymaint o gyswllt ac o fynd a dod rhwng Cymru a'r Wladfa heddiw, a'n bod ni, fel erioed, yn 'un teulu mawr'. Rydw i wedi cael fy ysbrydoli gan fy nhaith ac yn ysu am gael trio canu am y profiad – cawn weld be ddaw! Diolch o galon i bawb am y profiadau bythgofiadwy ac edrychaf ymlaen yn barod at gael dod yn ôl.

*Gwenan Gibbard*

Croeso nôl i Jeremias!!! Cawn hanes ei amser yng Ngholeg Llanymddy-fri yn y rhifyn nesaf!



# O'r ysgolion................................

## Ysgol Gymraeg Yr Andes Esquel





Helo ffrindiau!!!!

**Marina** ydw i. Dw i´n gweithio yn Ysgol Gymraeg Yr Andes Esquel ers tua deg mlynedd. Athrawes Ysgol Feithrin dw i.



Eleni dw i'n gweithio gyda'r athrawes o Gymru Eluned Jones. Mae'n gyfle arbennig i'r ddwy ohonom gan ein bod yn medru rhannu syniadau a phrofiadau newydd wrth gynllunio ar gyfer y gwersi gyda'n gilydd.

Dyn ni´n dysgu´r plant dwy waith yr wythnos ar ddydd Llun a dydd Mercher, o chwech tan wyth o´r gloch yn y prynhawn. Mae 12 o blant gyda ni rhwng tri a chwech oed.



Yn y grŵp cyntaf, mae Oriana, Antonia, Rhys, Tomos, Arwen, Emrys, Fermín a Cedrik, ac mae nhw´n mwynhau gweithgareddau amrywiol - canu, dysgu´r lliwiau, rhifau, siapiau a pheintio. Ond dw i'n credu mai eu diddordeb mwyaf yw edrych ar lyfrau.



Yn yr ail grŵp, mae Nia, Emilia, Gwen a Victoria sy'n hoffi peintio, ysgrifennu, chwarae cardiau ac mae'r merched yma wedi dechrau darllen yn Gymraeg hefyd!. Bendigedig!

Ar hyn o bryd mae'r gwersi Cymraeg yn cael eu cynnal yn yr Ysgol Feithrin Sbaeneg "Mundo Disparatado", achos mae'r gweithwyr yn brysur yn adeiladu yn Ysgol Gymraeg yr Andes Esquel. Dw i'n edrych ymlaen i weld yr adeilad newydd. Dw i wrth fy modd yn gweithio yn yr Ysgol Feithrin Sbaeneg hefyd oherwydd buodd Victoria yn yr ysgol hon dwy flynedd yn ôl.

| | | |
|---|---|---|
| Enw – Emilia<br>Oed – 6<br>Dw i'n hoffi dawnsio.<br>Dw i ddim yn hoffi rhedeg.<br>Dw i'n hoffi bwyta cig.<br>Dw i ddim yn hoffi bwyta Ca-nelones.<br>Dw i'n hoffi lliw pinc tywyll.<br>Dw i'n hoffi mynd i'r traeth.<br>Dw i'n hoffi dydd Nadolig.<br> | Enw – Nia<br>Oed – 5<br>Dw i'n hoffi nofio.<br>Dw i ddim yn hoffi chwarae mancha.<br>Dw i'n hoffi bwyta sbageti.<br>Dw i ddim yn hoffi bwyta cig.<br>Dw i'n hoffi lliw coch.<br>Dw i'n hoffi mynd i'r ysgol.<br>Dw i'n hoffi dydd Nadolig.<br> | Enw - Victoria<br>Oed - 6<br>Dw i'n hoffi nofio.<br>Dw i ddim yn hoffi pry copyn.<br>Dw i'n hoffi bwyta pizza.<br>Dw i ddim yn hoffi bwyta reis.<br>Dw i'n hoffi lliw porffor.<br>Dw i'n hoffi mynd i'r ysgol.<br>Dw i'n hoffi diwrnod<br>Pen blwydd.<br> |

# Cyfweliad gydag Athrawes Ysgol y Cwm




Pwy wyt ti?
Jessica Hopkins dw i.
Sut wyt ti?
Dw i'n hapus.
Ble wyt ti'n byw?
Dw i'n byw yn Nhrevelin gyda Mauricio.
Dyma ychydig o gefndir Jessica.
Ces i fy ngeni yn Esquel. Es i ysgol Puerto Del Sol – Ysgol Ddwyieithog ac yna i Goleg yn Esquel. I. S.F.D No 809. Dw i'n dysgu siarad Cymraeg ers mis Mawrth eleni. Dwi'n hoffi ymarfer siarad Cymraeg gyda'r plantos bach yn yr ysgol. Roedd fy hen daid yn siarad Cymraeg.
Dw i'n codi'n gynnar a dw i'n hoffi yfed mate ac ar ôl bwyta brecwast dw i'n glanhau a paratoi ar gyfer yr ysgol. Dw i'n coginio cyn mynd i'r ysgol. Ar ddydd Mawrth a Dydd Iau dw i'n mynd i wersi Cymraeg ar ôl ysgol.



Dyma yn fras:
Hoff bethau Jessica.
Dw i'n hoffi coginio, cerdded a dawnsio.
Dw i'n hoffi haf yr Andes.
Dw i'n hoffi diwrnod Pen blwydd.

Llyfr : Mi planta naranja lima.
Emyn : Calon Lân.
Cerddoriaeth : Aventura gan Abel Pintos.
Ffilm : Gladiador.
Teledu : Operau Sebon.
Lle : Bariloche.
Bwyd : Pasta.
Gair Cymraeg : Calon.
Lliw : Porffor.

**Jessica ydy'r athrawes newydd a benodwyd i weithio yn Ysgol y Cwm eleni**

## Profiad gwahanol i berson brwdfrydig o Drevelin sydd wedi gweithio yn Ysgol Gymraeg yr Andes ers blynyddoedd

Cawson ni b'nawn hyfryd ar y 23 o fis Tachwedd 2014 mewn te desfile yn Aldea Escolar, pentre bach agos i Drevelin.
Roedd 71 o ffrogiau priodas yn cael eu dangos tra bod nifer yn mwynhau te a chacennau blasus fel teisen ddu, tarten afalau, tarten hufen, tarten jam llaeth, cacen siocled, bara menyn, scons a jam eirin. Digon o fwyd i bawb.
Gwisgodd fy nith fy ffrog briodas i. Roedd yn emosionol gweld ffrog o'r flwyddyn 1912 yn cael ei gwisgo mewn desfile eto, roedd y ffrog yn bert iawn . Roedd yn fendigedig gweld Maria Esther Evans yn gwisgo ei ffrog hi hefyd! Roedd y ffrociau yn wahanol, y rhan fwyaf ohonynt yn wyn ond hefyd gwelsom dwy neu dair liwgar - pinc, oren a phorffor.
Yn ystod y p´nawn cyflwynwyd anrhegion i´r bobl gan fod rhifau ar y tocyn mynediad. Buodd llawer o bobl yn lwcus!
Ces i'r cyfle i weini´r te gyda'r merched eraill, profiad gwahanol iawn achos dyma'r tro cyntaf i mi helpu mewn te. Diolch i´r merched am drefnu popeth.

*Jessica Jones*







Enw – Danisa
Oed – 5
Dw i'n hoffi dawnsio.
Dw i'n hoffi bwyta milanesas
Dw i'n hoffi chwarae gyda doli
Dw i'n hoffi dydd Nadolig a phen-blwydd
Fy hoff le ydy plaza Trevelin



Enw – Dewi
Oed – 5
Dw i'n hoffi mynd ar y ceffyl a reidio beic.
Dw i'n hoffi bwyta hufen iâ
Dw i'n hoffi chwarae gydag anifeiliaid bach y fferm
Dw i'n hoffi dydd Nadolig a phen-blwydd
Fy hoff le ydy cylchdro plaza Trevelin



Enw – Rut
Oed – 5
Dw i'n hoffi dawnsio.
Dw i'n hoffi bwyta siocled
Dw i'n hoffi chwarae gyda doli
Dw i'n hoffi dydd Nadolig a phen-blwydd
Fy hoff le ydy plaza Trevelin



# Imanol



Dw i'n bymtheg oed. Dw i'n hoffi chwarae rygbi ac arlunio. Dw i ddim yn hoffi chwarae pêl droed. Mae gen i dri brawd - Lucas, Maxi a Jere. Dw i'n ffrindiau gyda Mike a Ryan. Dw i'n hoffi bwyta asado.



Mae'r cloc yn symud yn gyflym ac mae amser yn hedfan. Dwi'n edrych ymlaen i deithio i Gymru mis Gorffennaf. Mae prosiect y Mimosa wedi gwneud i fi symud a pharatoi llawer. Bu'n rhaid i ni dalu am y tocynnau hedfan ac yna ers dechrau'r flwyddyn bues i'n brysur iawn rhwng popeth yn rhoi gwersi ffidil i unigolion a grwpiau er mwyn helpu fy rhieni gyda'r costiau. Dw i'n teimlo nad yw'n deg iddyn nhw dalu popeth. Bu'n brofiad grêt i mi ac erbyn hyn dw i'n meddwl trefnu cyngerdd a gwahodd ffrindiau a theulu i chwarae rhywbeth, ond rhaid i mi feddwl a pharatoi yn iawn, felly dw i ddim am ddweud dim byd eto. Hefyd bydd yr Ysgol Gymraeg yr Andes Esquel yn ein helpu trwy drefnu raffl.

Bydd y daith yma yn brofiad arbennig, siwr o fod. Dw i'n hapus iawn achos dw i'n mynd gyda fy ffrind, Ryan. Bydda i'n mynd i Gymru wythnos cyn i'r gwaith caled ddechrau, Mae fy mrawd mawr yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae gen i lawer o ffrindiau yno hefyd a llawer o bethau dw i'n gweld eisiau.



Dw i'n eitha pryderus achos dw i ddim yn gwybod y sgript eto, ond dw i'n siŵr bydda i'n dysgu gyda'r criw.

Felly am y tro, rhaid i mi ymarfer fy Nghymraeg a phoeni am godi mwy o arian!

Diolch i bawb sy'n ein cefnogi ni ac yn awyddus i helpu gyda'r trefniadau.

*Mike Winter*



Ryan Lloyd ydw i. Dw i'n byw yn Esquel. Dw i'n lwcus iawn i gael teithio i Gymru mis Gorffennaf.

Dw i'n dysgu Cymraeg gyda fy ffrindiau Mike, Imanol a Jere. Mae Jere newydd ddod yn ôl o Gymru ar ol treulio tri mis yn Llanymddyfri. Roedd Jere wedi ennill ysgoloriaeth Tom Gravell.



Dw i wedi bod yn brysur yn codi arian ar gyfer y daith. Ar ddydd Sul Ebrill 12fed cerddodd nifer i fyny'r mynydd ac yna cael te yn Mynydd Llwyd carte nain, Lizzie Lloyd. Diolch i bawb am gefnogi. Roedd yn ddiwrnod bendigedig. Amser te roedd Mike yn chwarae'r ffidl. Codwyd 5000 peso.

*Ryan Lloyd*

Yn ôl eu tiwtor Gladys Jones - 'Maent yn fechgyn brwdfrydig, gweithgar a phrydlon ac maen nhw'n llawn haeddu'r cyfle o gymryd rhan yn y perfformiad gyda Theatr Clwyd ar y cyd gydag Urdd Gobaith Cymru. Dyma ddyfodol yr iaith Gymraeg yma'.

# Taith yr hetiau



Fel Swyddog Datblygu'r Gymraeg yn Nyffryn Camwy y llynedd ac eleni yn dychwelyd i'r Andes teimlais fod gwir angen cefnogi pump o ieuenctid o'r Wladfa sydd wedi cael eu dewis i gymryd rhan mewn perfformiadau ar y cyd gyda Theatr Clwyd ac Urdd Gobaith Cymru. Dychwelais o'r Dyffryn ddiwedd Rhagfyr ac euthum ati i geisio codi arian i'r pump Archentwr sydd yn y cast fydd yn perfformio yng Nghymru yn yr Eisteddfod ac yn y Wladfa wedi hynny.

Deallais fod yn rhaid i'r ieuenctid o Gymru sy'n cymryd rhan godi o gwmpas £2900 o bunnoedd yr un. O glywed hyn meddyliais am ffordd efallai i gynorthwyo costiau ieuenctid y Wladfa i'w galluogi i gymryd rhan llawn yn y prosiect. Yn amlwg nid yw codi arian o'r fath yn hawdd yma ym Mhatagonia oherwydd yr economi.



Cefais ymateb syfrdanol gan gyfeillion, busnesau,cymdeithasau ac ysgolion ym mro'r Preseli a gogledd Penfro ac o ardal gyfagos Aberteifi a de Ceredigion pan ofynnais iddynt gefnogi'r ymgyrch. Bu Siop Awen Teifi yn hael ofnadwy pan archebais 100 o hetiau Cymreig. Diolchaf yn fawr i Geraint am werthu'r hetiau am bris prynu i mewn yn ogystal a noddi.



Deallais tra'n ymweld y llynedd â Threvelin y buasai'r Ysgolion yn falch iawn i gael hetiau uchel Cymreig ar gyfer y dathliadau cyson. Gwerthwyd yr hetiau am £10 yr un a thrwy hynny gwneud elw o £900 tuag at y gronfa a thrwy hynny hefyd sicrhau fod gan blant Ysgol Gymraeg yr Andes yn Nhrevelin ac Esquel, Ysgolion y Dyffryn sef Ysgol yr Hendre Trelew ac Ysgol Gymraeg y Gaiman bump ar hugain o hetiau yr un yn eu meddiant erbyn Mis Mawrth.



Diolchaf yn arbennig felly i'r busnesau, ysgolion a'r unigolion canlynol am noddi. Siop Awen Teifi, E.L Jones yr Argraffwyr Aberteifi, Olew Trefigin Cware, Siop Sglodion a Bwydydd Glandy Cross, Dylan Thomas Crane Hire Boncath, Midway Motors Crymych, John Harries Trydanwyr Maenclochog/Aberteifi. Ysgolion lleol - Ysgol Gynradd Aberteifi, Ysgol y Frenni Crymych ac Ysgol Brynconin Llandysilio. Clybiau Criced a Rygbi Crymych. Unigolion a chysylltiadau personol megis Richard Jones Aberporth, Eirwyn a Bessie Harries Brynawelon, Marina Jones Cefn Sidan a'r Parch Eirian Wyn Lewis Brynhyfryd.





→




Rhaid peidio anghofio am bawb a fu mor garedig i gludo'r hetiau allan i'r Wladfa. Bu'r daith yn faith i'r hetiau. Cludwyd chwe deg ohonynt i Ruthin gan Rhian Clwyd Blaenffos a'u trosglwyddo i Pedr Wynn a'u gyfeillion o Glwyd sy'n teithio allan i'r Wladfa ddechrau Mawrth.







Yna tair ar ddeg gan Delyth ac Elvey Mac Donald Llanrhystud sy'n teithio ddiwedd Chwefror.
Dwsin arall gan Sion a Rebeca o'r Gaiman a fu ar eu gwyliau yng Nghymru, a minnau'n cludo'r gweddill.
Hoffwn ddiolch hefyd i Ceris Gruffudd unwaith yn rhagor am ei gymorth i wneud y trefniadau gyda chyfeillion Clwyd.
Banciwyd cyfanswm o naw can punt yng nghyfrif Urdd Gobaith Cymru - Taith Patagonia yr wythnos diwethaf. Dymunaf i'r arian hwn i fynd yn uniongyrchol i gefnogi'r pump o'r Wladfa sy'n cymryd rhan yn y perfformiad.



*Eluned Jones*

## Chwilair yr Hydref

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| p | w | j | o | c | a | d | a | i | r | w |
| r | d | l | y | d | f | s | g | b | c | ff |
| t | a | s | h | g | w | o | b | r | a | u |
| ll | w | y | f | a | n | l | a | y | n | e |
| g | n | c | y | s | t | a | d | l | u | b |
| h | s | m | h | g | e | d | r | s | d | a |
| e | i | s | t | e | dd | f | o | d | l | t |
| c | o | r | o | n | j | g | dd | f | p | o |

eisteddfod
gwobrau
cystadlu
adrodd
canu
dawnsio
coron
cadair

# Lansio'r dathlu mawr



Teithiodd ddirprwyaeth fechan o BWYLLGOR Y DATHLU (a sefydlwyd gan Gymdeithas Cymru-Ariannin i drefnu dathliadau 150mlwyddiant y Wladfa), draw i'r Ariannin ddiwedd Chwefror eleni gyda'r bwriad o ddangos cefnogaeth i'r pwyllgorau lleol ac i drafod rai cynlluniau gyda'r awdurdodau cenedlaethol, taleithiol a lleol. Yr aelodau oedd Dafydd Wigley (Llywydd y Dathlu), Marc Phillips (Cadeirydd Pwyllgor y Dathlu), ac Elvey MacDonald (Llywydd Anrhydeddus CC-A). Gyda hwy, teithiai hefyd y delynores fyd-enwog Elinor Bennett Wigley, a Delyth MacDonald.

Syfrdanwyd y ddirprwyaeth gan y croeso a gafwyd ym mhob man. Cynhaliwyd trafodaethau adeiladol iawn gyda'r Dirprwy Weinidog Tramor, y Br. Eduardo Zuaín, a gyfeiriodd at bwysigrwydd cyfraniad y Wladfa Gymreig i ddatblygiad y weriniaeth. Pwysleisiodd gefnogaeth y Llywodraeth cenedlaethol i'r dathliadau a gynhelir yn y ddwy wlad yn ystod y flwyddyn hon ac i'r ysgolion dwyieithog sydd wedi (ac ar y ffordd i gael) eu sefydlu yn Nyffryn Camwy a'r Andes.



Cafwyd cyfarfod diddorol y prynhawn hwnnw gyda Llysgennad Y Deyrnas Unedig yn Buenos Aires. Roedd yntau yn edrych ymlaen yn frwd at ymweliadau niferus gan Gymry (yn grwpiau amrywiol ac unigolion) sy'n bwriadu dod drosodd i ymuno yn y dathliadau a gynhelir eich ochr chi o'r Iwerydd ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Mynegodd y Llywydd obaith y pwyllgor y gall holl weithgaredd y flwyddyn hon fod yn gyfrwng i hyrwyddo perthynas agosach rhwng y ddwy wlad.

Braf oedd cael cyfarfod â Lewis ac Irma, a oedd yn aros amdanom yn hynod garedig ym maes glanio Esquel – yn amyneddgar iawn hefyd, o gofio'r amser a gollwyd yn ceisio dod o hyd i fag dillad y Cadeirydd (ac eithrio'r rhai oedd amdano!) - bag a ddaliwyd yn ôl yn Efrog Newydd ac nas dychwelwyd iddo nes i ni gyrraedd y dyffryn. Wedi setlo i lawr yn y gwesty, allan â ni i grwydro ychydig ar strydoedd y dref. Cyfle i ddangos gogoniannau Esquel i Marc, oedd ar ei ymweliad cyntaf. Roedd brys mawr arno yntau i brynu ddillad addas ar gyfer yr amrywiol ddigwyddiadau oedd yn mynd i hawlio'n presenoldeb yn ystod y diwrnodau canlynol. Af i ddim dros y rhestr gyflawn – dim ond dweud ein bod wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i economi yr Andes!



→



Y noson honno, cynhaliwyd cyfarfod adeiladol gyda Phwyllgor yr Andes, pryd y cafodd y ddwy ochr gyfnewid gwybodaeth am y cynlluniau niferus sydd i'w gwireddu eleni. Nid y lleiaf ohonynt oedd y gwaith sydd eisoes yn brasgamu ymlaen i godi adeilad Ysgol Ddwyieithog Trevelin. Cyffrous, yn wir. Dilynwyd hynny gyda phryd o fwyd blasus a chyfle i gymdeithasu gyda hen gyfeillion, yn ogystal â darganfod rhai newydd. Coronwyd y noson gan ddatganiadau gan Elinor ar un o'r telynau a brynwyd gydag arian y gronfa a sefydlodd hi ei hun i brynu telynau a gaiff eu cadw (a'u defnyddio, gobeithio) yn Nhrelew, y Gaiman a Threvelin. Ynghyd â'r cyfeillion eraill o Gymru oedd yn crwydro'r ddwy Wladfa, treuliwyd gweddill y noson yn canu hen alawon Cymreig cyfarwydd.

Y bore canlynol, ni chynhaliwyd yr orymdaith ddinesig yr oeddem wedi derbyn gwahoddiad i'w gwylio yng nghwmni'r Maer, Rafael Williams, ond cludwyd ni gan Ivor Roberts a Joyce Powell i'w gyfarfod yn ei swyddfa. Pwy gerddodd i mewn yn ei gwmni ond Dr. Martín Buzzi, Llywodraethwr y Dalaith, ynghyd â rhai o aelodau ei dîm. Er ein bod yn mynd i'w gyfarfod yn Rawson rai dyddiau'n ddiweddarach, cawsom gyfle i wyntyllu nifer o gynlluniau oedd ar y gweill.



Roedd y pump ohonom wedi derbyn gwahoddiad gan Clare ar ran Pwyllgor Bro Hydref i fynd am baned o de yn Nhrevelin. Roedd yn rhaid i ni alw yn Amgueddfa'r Felin ar ein ffordd, er mwyn i ni gael dangos yr adeilad ar ei newydd wedd ac edmygu'r creiriau diddorol sy'n addurno bob llawr. Nawr, fe wyr pawb am y prydau blasus a fwynheir gan bwy bynnag sy'n mynychu Tŷ Te Nain Maggie ac roedd yna lawer o edrych ymlaen at y danteithion – yn enwedig o gofio na fyddai'n rhaid i ni dalu am y fath wledd! Dydw i fy hun ddim yn yfed te nag yn arbennig o hoff o deisennau ond rhaid i mi gyfaddef i mi fwynhau'r pryd a'r cwmni niferus a difyr oedd yno i'n croesawu. Erbyn diwedd y noson, roeddem wedi cael ein gwala ac yn barod i wynebu'r daith hir ar draws y paith a oedd yn ein hwynebu'r diwrnod canlynol. Gwyddem fod yna raglen lawn wedi'i threfnu ar ein cyfer yno hefyd – a rhagor o brydau bwyd ar fyrddau dirifedi yn barod i ddiwallu ein harchwaeth am weddill yr wythnos (galed?) oedd o'n blaen.

*Elvey MacDonald*

Noddwyd y rhifyn yma o 'Llais yr Andes' gan Dŷ Te Nain Maggie.

Diolch iddynt am eu parodrwydd i gefnogi ein papur bro ni.



# Chwilair

## Berfau

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O | C | V | U | I | Z | A | R | C | H | E | B | U | F | U |
| Q | R | E | T | L | H | V | V | K | G | P | E | H | U | J |
| J | K | U | F | N | H | H | S | W | L | O | D | X | U | Q |
| B | K | L | E | N | M | T | A | I | C | L | D | X | I | C |
| N | H | X | E | H | O | R | A | T | L | G | E | D | F | A |
| G | U | A | L | W | I | G | W | D | O | O | A | K | V | O |
| L | V | D | V | O | U | D | I | F | I | H | R | E | O | M |
| S | M | K | W | F | I | M | D | A | K | I | R | J | E | O |
| O | I | N | A | L | G | O | A | M | Z | R | Y | G | G | A |
| N | H | N | F | Y | S | P | T | G | Y | I | C | Y | V | C |
| G | A | Q | W | K | O | P | O | Y | U | O | H | A | S | U |
| L | M | B | Y | O | L | L | M | B | R | T | P | O | Q | V |
| P | W | Y | S | O | L | S | V | J | N | N | G | P | F | R |
| D | J | X | V | B | H | A | E | E | H | D | G | J | I | L |
| C | V | L | X | N | H | X | B | A | E | R | T | W | T | W |

ANAFU
ARCHEBU
BENTHYG
CEFNOGI
CLOI
CYRRAEDD
DATHLU
GLANIO
GOHIRIO
GWARIO
LLOSGI
MAGU
PWYSO
YMDDIHEURO